

Dod o hyd i dangnefedd â Duw

“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.” (adn. 14)

Beth am ddarllen Luc 2: 1–14 ac yna myfyrio

Roedd y tangnefedd a welwyd yn Iesu ac a roddwyd ganddo yn dangnefedd “nid fel y mae’r byd yn rhoi” (Ioan 14:27). Mae’r tangnefedd ddaw gyda Christ, fel ef ei hun, yn dod i lawr o’r nefoedd i’r ddaear. Does dim yn y byd sydd ohoni, wedi’i ddifrodi gan bechod, hunanoldeb a rhyfel, a all roi tangnefedd parhaol. Ffug-heddwch ydy’r gorau y gall y byd ei gynnig. Mae’r Beibl yn dweud: “Nid oes llwyddiant i’r annuwiol” (Eseia 48:22). A pham? Oherwydd mae angen tangnefedd nefol ar ddaear rwygedig. A dyma beth sydd ar gael yng Nghrist. Mae’r ddaear wedi mynd oddi ar ei hechel – sef ewyllys gariadus ei Chrëwr. Mae popeth allan o drefn. Mae angen aildrefnu, cymodi ac adfer popeth.

Hanfodol yn hyn o beth ydy ailsefydlu gogoniant Duw fel y brif flaenoriaeth yn ei fyd. Pan fydd gogoniant Duw wedi’i adfer fel canolbwynt yr holl greadigaeth, yna bydd tangnefedd ar y ddaear fel ag yn y nefoedd. Roedd genedigaeth Iesu yn cyhoeddi’r iachawdwriaeth sy’n dod â thangnefedd i ni. Tangnefedd rhwng Duw a phechaduriaid, tangnefedd rhyngom a’n gilydd, tangnefedd o’n mewn – daeth pob dimensiwn o’r tangnefedd gogoneddus, achubol hwn i ni fel rhodd o ras Duw yn nyfodiad ei Fab, Iesu. Does dim syndod bod y corau o angylion wedi gwneud eu gorau glas i glodfori’r fath ennyd a’r fath ffafr.

Cofiwch, fodd bynnag, na ellwch chi gael y tangnefedd sydd o Dduw heb fod gennyh dangnefedd â Duw. Os nad ydych chi erioed wedi derbyn Iesu Grist i’ch bywyd fel eich Gwardwr a’ch Arglwydd, yna gwnewch hynny’n awr. O ddod o hyd i dangnefedd â Duw, bydd eich enaid o hynny allan yn gorlifo â’r tangnefedd sydd o Dduw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Jer. 6:13–15; 8: 8–11; Salm 86:8–12; Luc 1: 76–79; 1Thes. 5:1–5

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Am ba ‘ffug-heddwch’ roedd Jeremeia’n sôn?
2. Ym mha ffordd roedd Ioan Fedyddiwr yn rhagfynegi Iesu?

Gweddi

O Dad nefol, helpa fi i fod yn sicr bod f’enaid mewn tangnefedd â thi fel y gallaf hawlio’r tangnefedd sy’n dod oddi wrthyt ti. Gwnaf hynny’n awr. Achub fi, maddau mhechodau, tyrd i nghalon, a gwna fi’n blentyn i ti. Yn enw Iesu y gweddiâf. Amen.